

**CYNGOR CYMUNED LLANSANTFFRAED
LLANSANTFFRAED COMMUNITY COUNCIL**

**Cofnodion o gyfarfod o'r Cyngor a
gynhaliwyd am 7:30 pm ar nos
Fawrth, 2il Ebrill 2019 yn yr Ystafell
Ddarllen, Llanon.**

Yn bresennol:

Cadeirydd: y Cyngorydd Bryan Tomlins; y Cyngorwyr Jim Hughes, Lowri Jones, Lodwick Lloyd, Gwenno Piette, Aled Roberts a Phil Tomlins.
Cyngorydd Sir Dafydd Edwards
Mr Denfer Morgan (Clerc)

**Minutes of a meeting of the Council
held at 7:30 pm on Tuesday, 2nd April
2019 at the Reading Room, Llanon.**

Present:

Chairman: Councillor Bryan Tomlins;
Councillors Jim Hughes, Lowri Jones,
Lodwick Lloyd, Gwenno Piette, Aled
Roberts and Phil Tomlins.
County Councillor Dafydd Edwards
Denfer Morgan (Clerk)

- | | |
|---|---|
| 302 Ymddiheuriadau
Ymddiheurodd y Cyngorwyr Sheila Davies a Dennis Morgan am fethu a bod yn bresennol yn y cyfarfod. | 302 Apologies
Councillors Sheila Davies and Dennis Morgan apologised for their inability to attend the meeting. |
| 303 Personol
Estynnodd y Cadeirydd groeso nôl i'r Cyngorydd Lodwick Lloyd ar ôl ei gyfnod a salwch. Dywedodd hefyd fod y Cyngorydd Dennis Morgan wedi cael llawdriniaeth yn ddiweddar a'i fod gartref yn gwella. | 303 Personal
The Chairman welcomed back Councillor Lodwick Lloyd following his period of illness; and stated that Councillor Dennis Morgan was home recuperating after a recent operation. |
| 304 Datgelu Buddiant Personol ac Un sy'n Rhagfarnu
Fe ddatgelodd y Cyngorwr Lodwick Lloyd ac Aled Roberts buddiant personol ac un sy'n rhagfarnu yng nghais cynllunio A190018 y cyfeirir ato yng nghofnod 306(2) isod gan adael yr ystafell yn ystod y drafodaeth ar y mater. | 304 Disclosure of Personal and Prejudicial Interest
Councillors Lodwick Lloyd and Aled Roberts disclosed a personal and prejudicial interest in planning application A190018 referred to in Minute 306(2) below and left the room during the consideration of the matter. |
| 305 Cofnodion o'r Cyfarfod Misol a gynhaliwyd ar 5ed Mawrth 2019
Cadarnhawyd cofnodion o Gyfarfod o'r Cyngor a gynhaliwyd ar 5ed Mawrth 2019 fel rhai cywir. | 305 Minutes of the Monthly Meeting held on 5th March 2019
The Minutes of the Meeting of the Council held on 5 th March 2019 were confirmed as being a correct record. |
| 306 Materion yn codi o'r Cofnodion | 306 Matters arising from the Minutes |
| (1) Cofnod 278(i) – Nodwyd fod y gwaith o ail-baentio llinellau'r mannau parcio ym Maes Parcio'r Waun wedi'i gwblhau. | (1) Minute 278(i) – bays at the Waun Car Park on had been re-painted. |
| (2) Cofnod 285(b) – Cais Cynllunio | (2) Minute 285(b) – Planning Application |

A190018. Estynnodd y Cadeirydd groeso unwaith eto i drigolion o Gylch Peris a rhoddyd caniatad iddynt annerch y cyfarfod unwaith yn rhagor. Fe gododd Ms Edwards pryderon am y drefn a ddilynwyd gan y Cyngor ac, yn ei thyb hi, diffyg ymgynghori gyda'r trigolion; gan gynnwys gofnod anghywir yn gyfeirio hefyd at y disgrifiad o'r datganiad o fuddiant personol ac un sy'n rhagfarnu gan y Cyngorydd Roberts. Cyfeiriodd y Clerc at sylwadau'r Asiantaeth Cefnffyrrd ynghylch trefniadau mynediad i'r safle a nodwyd y sefyllfa presennol.

307 Materion Ariannol

PENDERFYNWYD:

- a) cadarnhau talu'r anfonebau canlynol cyn diwedd y flwyddyn ariannol:

Glamorgan white Lining	£540
Cyngor Sir Ceredigion (trwsio'r man chwarae)	£562.80

- b) talu'r anfoneb a dderbyniwyd oddi wrth Bwylgor Neuadd y Pentref yn y swm o £188.40 sef cyfran y Cyngor o'r gost o dorri'r maes chwarae gan y Cyngor Sir ar ddechrau'r flwyddyn.

308 Cynllun Lwfansau Aelodau 2019-20

Rhoddyd ystyriaeth i argymhellion Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol dyddiedig Chwefror 2019. Dywedodd y Clerc fod Penderfyniad 40 – Taliad tuag at gostau a threuliau – nawr yn gymwys i bob cyngor bro a thref, pa beth bynnag oedd maint y praesept blynyddol.

PHENDERFYNWYD mabwysiadu'r Cynllun isod ar gyfer 2019-20:-

Lwfans a gynhyshir yn y Cynllun

Penderfyniad 40 – Taliad tuag at gostau a threuliau
Penderfyniad 43 – Costau teithio
Penderfyniad 46 – Lwfans costau gofal

A190018. The Chairman welcomed residents of Cylch Peris once more to the meeting and further permission was given to address the meeting on the matter. Ms Edwards raised concerns about the procedure undertaken by the Council at the previous meeting and, in her opinion the failure to consult with residents; and also referred to the incorrect minute describing the disclosure of personal and prejudicial interest by Councillor Roberts. The Clerk read out the comments of the Trunk Road Authority in respect of the access arrangements for the site and the current position was noted.

307 Finance Matters

It was RESOLVED:

- a) to confirm the payment of the following invoices prior to the end of the financial year:

Glamorgan white Lining	£540
Ceredigion County Council (playground repairs)	£562.80

- b) to pay the invoice received from the Village Hall Committee in the sum of £188.40 being the Council's share of the cost of the cutting of the playing field by the County Council at the beginning of the year.

308 Members Allowances Scheme 2019-20

Consideration was given to the recommendations of the Independent Remuneration Panel for Wales dated February 2019. The Clerk reported that Determination 40 – Payment towards costs and expenses – now applied to all town and community council, irrespective of the amount of the annual precept.

It was RESOLVED to adopt the following Scheme for 2019-20:

Allowance Included In Scheme

Determination 40 – Payment towards costs and expenses
Determination 43 – Travel costs
Determination 46 – Care costs allowance

Lwfansau na chynhwysir yn y Cynllun

Penderfyniad 42 – Taliad cyfrifoldebau penodedig
Penderfyniad 44 – Taliad costau cynhaliaeth
Penderfyniad 45 – Lwfans colled ariannol
Penderfyniad 47 – Taliad Pennaeth Dinesig
Penderfyniad 48 – Taliad Dirprwy Pennaeth Dinesig.

Nodwyd hefyd, yn unol a Phenderfyniad 49, ni all Aelodau sy'n cael uwchgyflog ym Mand 1 neu Fand 2 gan brif gyngor (hynny yw yr Arweinydd, Dirprwy Arweinydd neu Aelod Gweithrediaeth) gael unrhyw daliad gan Gyngor Tref neu Gymuned, ac eithrio costau teithio a chynhaliaeth ac ad-daliadau o gostau gofal.

309 Adroddiad Archwilio Eiddo

Darllenodd y Clerc yr adroddiad canlynol a dderbyniwyd oddi wrth y Cynghorydd Sheila Davies:

Y maes parcio – yn lân ac yn daclus, y banciau boteli wedi'u gwagio. Roedd yna bant bach yn y palmamt o hyd allai arwain at rywun yn baglu.

Y cyrtiau tenis – yn lan, yn rhydd o sberiel ac yn cael eu ddefnyddio'n dda gan blant lleol.

Ardal y Cyngor Cymuned y tu cefn i'r arosfan bysus – dim problemau.

Y man chwarae – edrychwyd ar y sigr lenni a'r . Roedd yna graffiti o hyd o dan y llithren, ac roedd angen i gyrrion y mat diogelwch gael sylw (adroddwyd o'r blaen).

Eisteddfa'r gwylwyr – heb do o hyd ond fe aed a'r sbwriel a'r rhannau o'r to a ddifrodwyd i ffwrdd. Roedd y tu mewn yn llawn graffiti. (Nid eiddo'r Cyngor Cymuned yw hwn.)

Allowances Not Included In Scheme

Determinations 42 – Specific responsibilities payment
Determination 44 – Subsistence payment
Determination 45 – Financial loss allowance
Determination 47 – Civic Head's payment
Determination 48 – Deputy Civic Head's payment.

It was also noted that, in accordance with Determination 49, Members in receipt of a Band 1 or Band 2 senior salary from a principal council (that is Leader, Deputy Leader or Executive Member) cannot receive any payment from any community or town council, other than travel and subsistence expenses and reimbursement of costs of care.

309 Property inspection report

The Clerk read out the following report had been received from Councillor Sheila Davies:

Car park - clean and tidy, bottle banks had been emptied. There is still a dip in the pavement and this could be a trip hazard.

Tennis courts - clean, litter-free and being well used by local children

Community Council area behind bus shelter - no problems

Play area - swings and chute checked. Still some graffiti under the chute, the edge of the matting needs attention (previously reported)

Spectator stand - still roofless, but all the rubbish and damaged roof parts have been removed. Inside covered in graffiti. (Not Council property.)

- 310 Maes Parcio'r Waun**
 Dywedodd y Clerc for western Power wedi cyfrannu £200 tuag at y gost o ddarparu llinellau melyn o flaen yr isorsaf.
 Dywedodd y Cadeirydd hefyd fod Dan Lewis wedi llenwi'r twll yn y palmant a **PHENDERFYNWYD** talu'r anfoneb o £120 a dderbyniwyd oddi wrtho ef, ar ol ei dderbyn.
- 311 Y Man Chwarae**
 Nodwyd fod y gwaith trwsio wedi ei gyflawni gan y Cyngor Sir a **PHENDERFYNWYD** gofyn i'r Clerc drefnu trwsio'r mat diogelwch.
- 312 Datblygu'r Cyrtiau Tenis**
 Nodwyd fod y pyst tenis wedi cael eu dadorchuddio a bod y padiau wedi cael eu rhoi yn eu lle.
- 313 Y Chalet**
 Rhoddwyd ystyriaeth pellach i benderfyniad y Loteri Cenedlaethol i wrthod y cais y Cyngor am grant.
 Yn dilyn trafodaeth, **PENDERFYNWYD** bwrw 'mlaen i drafod y cynlluniau gyda chontractwr lleol er mwyn paratoi cynllun a'l gost ar gyfer trafodaeth pellach gan y Cyngor.
- 314 Contract Cymenu Llwybrau Cyhoeddus**
 Rhoddwyd ystyriaeth i'r ddau dendr a dderbyniwyd ar gyfer contract 2019-20, sef:
 Ground Tech Ltd. - £1,800 a £300 ar gyfer unrhyw doriad ychwanegol
 Mr Meurig Lloyd - £1,700 a £284 ar gyfer unrhyw doriad ychwanegol.
 Dywedodd y Clerc fod y ddau contratwr wedi darparu manylion o'u cymwysterau ac yswiriant atebolwydd cyhoeddus.
PENDERFYNWYD derbyn y tendr isaf sef un Mr Meurig Lloyd.
- 310 Waun Car Park**
 The Clerk advised that Western Power had contributed £200 towards the cost of providing the yellow lines outside the sub-station.
 The Chairman also stated that Dan Lewis had filled in the hole in the pavement and it was **RESOLVED** to pay the £120 invoice received from him, when received.
- 311 Playground**
 It was noted that the repairs had been undertaken by the County Council and it was **RESOLVED** to request the Clerk to arrange for the safety matting to be repaired.
- 312 Tennis Courts Development**
 It was noted that the work of uncovering the holes for the posts had been uncovered and the padding had been attached to the posts.
- 313 The Chalet**
 Further consideration was given to the proposed provision of a replacement chalet.
 Following discussion, it was **RESOLVED** to proceed to discuss the plans with a local architect in order to produce a scheme and its costings for further consideration by the Council.
- 314 Public Footpath Cutting Contract**
 Consideration was given to the two tenders received for the 2019-20 contract, namely:
 Ground Tech Ltd. - £1,800 and £300 for any subsequent cut
 Mr Meurig Lloyd - £1,700 and £284 for any subsequent cut.
 The Clerk stated that both contractors had provided details of qualifications and public liability insurance.
 It was **RESOLVED** to accept the lowest tender received being that of Mr Meurig Lloyd.

- 315 Y Sedd Gwag ar y Cyngor**
 Cyfeiriodd y Clerc at y tri ymgeisydd a oedd wedi anfon eu cais i fewn cyn y dyddiad cau, yr oedd eu manylion wedi'u ddosbarthu i'r Aelodau cyn y cyfarfod. Cytunwyd cyfethol yr un Aelod newydd drwy falot gudd a darparwyd papurau pleidleisio i'r saith Aelod a oedd yn bresennol. Cytunwyd hefyd derbyn plaidlais y Cyngorydd Dennis Morgan a oedd wedi'i dderbyn mewn amlen caeëdig cyn y cyfarfod.
- Roedd y bleidlais fel a ganlyn:
- Hayfield: 0
 Pocock: 2
 Vaughan: 8
- PENDERFYNWYD** felly cyfethol Caryl Vaughan yn Aelod o'r Cyngor.
- 316 Cais Cangen SyM**
 Rhoddwyd ystyriaeth i gais Cangen SyM Llanon am gefnogaeth gan y Cyngor Cymuned I'w menter 'Cysylltu Llanon'.
- PENDERFYNWYD** gwahodd SyM i annerch cyfarfod nesa'r Cyngor ar y mater.
- 317 Unrhyw Fater Arall**
- a) Mewn ateb i'r Cyngorydd Lowri Jones, dywedodd y Cyngorydd Sir Dafydd Edwards fod trafodaethau parthed darparu golau stryd ychwanegol o flaen y Capel yn Nebo yn parhau.
 - b) Yn dilyn cwestiwn gan y Cyngorydd Gwenno Piette, cytunwyd i dderbyn adroddiad yn y cyfarfod nesaf ar xx unrhyw gynnydd gyda'r cais I gael prydles a dir y Cyngor sir sy'n ffinio gyda Hafan yr Efail.
 - c) Fe gyfeiriodd y Cyngorydd Phil Tomlins at y materion canlynol:
- 315 Vacancy on the Council**
 The Clerk referred to the three candidates who had submitted their applications by the closing date, details of whom had been circulated to Members prior to the Meeting. It was agreed to co-opt the one new Member by way of a secret ballot and voting slips were given to those seven Members who were present. It was also agreed to accept the vote of Councillor Dennis Morgan which had been received in a sealed envelope prior to the meeting.
- The voting was as follows:
- Hayfield: 0
 Pocock: 2
 Vaughan: 8
- It was therefore **RESOLVED** to co-opt Caryl Vaughan as a Member of the Council.
- 316 WI Branch request**
 Consideration was given to the request of the Llanon Branch of the WI for the Community Council to support its 'Linking Llanon' initiative.
- It was **RESOLVED** to invite the WI to address the next meeting of the Council.
- 317 Any Other Business**
- a) In reply to Councillor Lowri Jones, County Councillor Dafydd Edwards stated that discussions in respect of providing an additional street light outside the Chapel in Nebo were proceeding.
 - b) Following a query by Councillor Gwenno Piette, it was agreed to receive a report at the next meeting on any progress with the request to lease the County Council land to the side of Hafan yr efail at the next meeting.
 - c) Councillor Phil Tomlins referred to the following matters:

Daeth y cyfarfod i ben am 8:45 p.m.

The meeting concluded at 8:45 p.m.